Estyn

# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Gynradd a Reolir Llan San Siôr

Dyddiad yr arolygiad: 16/03/2026

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# Crynodeb

Mae Ysgol Gynradd a Reolir Llan San Siôr yn darparu amgylchedd cynnes a chroesawgar lle mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel, eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, ac yn barod i ddysgu. Mae staff yn adnabod eu disgyblion yn dda ac yn creu awyrgylch gofalgar sy'n cefnogi ymddygiad cadarnhaol a pherthnasoedd cryf. Mae'r ysgol yn cyfathrebu'n glir â theuluoedd ac yn meithrin ymdeimlad cryf o gymuned trwy'r ffordd y mae disgyblion, staff a rhieni yn gweithio gyda'i gilydd.

Mae'r pennaeth yn gosod cyfeiriad clir ar gyfer yr ysgol ac yn gwneud yn siŵr bod pawb yn deall eu rôl yn helpu disgyblion i lwyddo. Mae llywodraethwyr yn frwdfrydig ac yn wybodus am lawer o agweddau ar waith yr ysgol, er eu bod yn datblygu eu dealltwriaeth o ansawdd addysgu a dysgu o hyd.

Mae staff yn cynllunio gweithgareddau diddorol sy'n gwneud defnydd da o'r ardal leol ac yn rhoi profiadau dysgu cofiadwy i ddisgyblion. Oherwydd hyn, mae disgyblion o bob gallu, yn cynnwys y rhai sydd angen cymorth ychwanegol, yn gwneud cynnydd cadarn wrth iddynt symud o un dosbarth i'r llall.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymateb yn dda i wersi sy'n eu hannog i feddwl a datblygu annibyniaeth gynyddol. Mae addysgu yn ddifyr ac mae iddo gyflymdra da. Mae athrawon yn defnyddio holi ac adborth medrus i ddyfnhau dysgu, er nid ydynt yn cymhwyso'r dulliau hyn yn gyson.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dod yn gyfathrebwyr hyderus sy'n siarad yn glir ac yn gwrando'n ofalus ar bobl eraill. Maent yn datblygu medrau darllen, ysgrifennu a rhifedd cadarn ac yn eu cymhwyso'n llwyddiannus ar draws y cwricwlwm. Mae eu medrau creadigol a digidol yn datblygu'n dda, ac mae llawer ohonynt yn mwynhau mynegi eu hunain trwy gelf a cherddoriaeth. Er bod disgyblion yn dangos brwdfrydedd am ddysgu Cymraeg, nid yw llawer ohonynt yn hyderus wrth ddefnyddio'r iaith mewn sgyrsiau syml.

Mae lles disgyblion yn nodwedd gref yn yr ysgol. Maent yn deall sut i aros yn ddiogel, wyneb yn wyneb ac ar-lein, ac yn mwynhau cymryd rhan mewn gweithgareddau oedran cymysg sy'n eu helpu i wneud ffrindiau. Mae "Senedd" yr ysgol yn rhoi llais i ddisgyblion, er bod staff yn gor-gyfarwyddo'r gwaith hwn. Mae athrawon a staff cymorth yn darparu cymorth sy'n cael ei weddu'n dda ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol sy'n eu helpu i wneud cynnydd tuag at eu nodau personol.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:**

A1 Sicrhau bod yr arferion addysgu mwyaf effeithiol yn cael eu rhannu a'u cymhwyso'n gyson ar draws yr ysgol

A2 Gwella hyder a rhuglder disgyblion mewn Cymraeg llafar

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 21/05/2026